## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (CYLCHFAN CAREW CHERITON, SIR BENFRO) (DILEU CYFYNGIADAU) 202-

### DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn dileu anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda'r terfyn cyflymder presennol yn y lleoliad hwn.

Yn dilyn y newid yn y terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 30 mya i 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru ym mis Medi 2023, cynhaliwyd adolygiad o rannau o briffordd sy'n ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder cenedlaethol uwch lle y mae goleuadau stryd yn bresennol.

Y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol (ar gyfer ceir a beiciau modur) ar ffyrdd unffrwd gwledig yw 60 mya. Mae'r ffaith bod goleuadau stryd yno, a ddarperir gan lampiau sydd wedi eu gosod heb fod yn fwy na 200 llath (183 o fetrau) oddi wrth ei gilydd yn golygu bod y rhan hon o'r ffordd wedi ei dosbarthu'n ffordd gyfyngedig.

Yn dilyn adolygiad o'r rhan hon o'r ffordd yn erbyn y ffactorau a nodir yn adran 6 o'r canllawiau ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad yw'r meini prawf ar gyfer terfyn cyflymder is o 20 mya wedi eu bodloni.

Felly, mae'r Gorchymyn Dileu Cyfyngiadau Terfyn Cyflymder hwn yn sicrhau bod y terfyn cyflymder ar y rhan hon o gefnffordd yr A477 yn cael ei gadw at 60 mya.

## THE A477 TRUNK ROAD (CAREW CHERITON ROUNDABOUT, PEMBROKESHIRE) (DERESTRICTION) ORDER 202-

### STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to remove an anomaly that currently exists with the current speed limit at this location.

Following the change in national default speed limit from 30 mph to 20 mph on restricted roads across Wales in September of 2023, a review of sections of highway subject to the upper national speed limit where street lighting is present was undertaken.

The current national speed limit (for cars and motorcycles) on rural single carriageway roads is 60 mph. The presence of street lighting furnished by lamps placed not more than 200 yards (183 metres) apart means this section of road is classed as a restricted road.

Following a review of this section of road against the factors set out in section 6 of the guidance on Setting Local Speed Limits in Wales 2009, Welsh Government have concluded that the criteria for a lower speed limit of 20 mph have not been met.

This Derestriction Speed Limit Order therefore ensures the speed limit on this section of the A477 trunk road is retained at 60 mph.